**ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9**
**EBRILL 2004 - MAWRTH 2005**

## 1. Rhagair

1.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgorau pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad ar hynt y gwaith o gyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

## 2. Yr Aelodau

2.1 Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

Rosemary Butler (Cadeirydd), Alun Pugh (Gweinidog), Leighton Andrews, Lorraine Barrett, Eleanor Burnham, Lisa Francis, Denise Idris-Jones, Elin Jones, Laura Anne Jones, Owen John Thomas.

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod hwn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 13 o weithiau. Cafwyd pum cyfarfod preifat o'r 'rapporteurs' a fu'n ystyried cynlluniau corfforaethol pum corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chafwyd un cyfarfod preifat o'r grwp cyfeirio a sefydlwyd i drafod yr adolygiad polisi "Dawns yng Nghymru".

## 4. Ymweliadau

4.1 Bu'r Pwyllgor ar chwech o ymweliadau yn ystod y flwyddyn. Tra'n ystyried cynlluniau corfforaethol y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, cyfarfu'r Pwyllgor â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth; Cyngor Celfyddydau Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth; Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis; Cyngor Chwaraeon Cymru yng Nghanolfan Plas Menai; a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei swyddfeydd yng Nghaernarfon.

4.2 Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol yng Nghanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon yng Nghasnewydd.

## 5. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

5.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn deillio o bortffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mae'r portffolio'n cynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, henebion, llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion y loteri. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys gorolwg ar naw corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu gyrff cyhoeddus sy'n cael cymorth grant.

5.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

## 6. Nodau ac Amcanion

6.1 Disgrifiodd y Pwyllgor ei amcanion yn y Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005. Cymeradwywyd y ddogfen ar 30 Mehefin 2004. Y nod oedd cadw’r ddysgl yn wastad rhwng craffu ar waith y Gweinidog a chyfrannu at ddatblygu polisïau drwy gynnal adolygiadau polisi.

## 7. Hynt y Gwaith

7.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar adolygiadau polisi gan gwblhau adolygiad o gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol a chychwyn adolygiad "Dawns yng Nghymru". Mae hefyd wedi ystyried darlledu. Trafodwyd adroddiadau’r Gweinidog ar ddatblygiadau yn ei bortffolio ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

## 8. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

### Adolygiad o Gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol

8.5 Parhawyd â'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad yn ystod haf 2004 ac yn y cyfarfod ar 29 Medi. Cytunwyd ar yr adroddiad terfynol ar 8 Rhagfyr 2004 ac fe'i trafodwyd yn y cyfarfod llawn ar 26 Ebrill 2005.

### Adolygiad o Ddawns yng Nghymru

8.6 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal yr adolygiad hwn yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2004. Y cylch gorchwyl oedd cynnal arolwg o ddawns yng Nghymru er mwyn:

- ystyried pa gyfleoedd sydd ar gael i ddawnsio a faint o bobl sy'n manteisio ar y cyfleoedd hynny (gan gynnwys dawns ym myd addysg);
- ystyried faint o gymorth sydd ar gael ar gyfer dawns;
- ystyried arweiniad strategol yn y maes;
- cyflwyno argymhellion ar y camau y dylai'r Llywodraeth a chyrff allweddol eraill eu cymryd yn y dyfodol.

8.7 Cychwynnwyd proses ymgynghori ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2004 a, rhwng Ionawr a Mawrth 2005, cynhaliwyd tair sesiwn arbennig i gasglu tystiolaeth. Sefydlwyd grwp cyfeirio a gyfarfu ym mis Tachwedd i drafod beth fyddai prif ffocws y broses ymgynghori a'r adolygiad.

### Materion Polisi Eraill

8.8 Derbyniwyd tystiolaeth ar ddarlledu mewn tri chyfarfod. Roedd adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn un o'r materion a drafodwyd. Ymatebwyd yn ffurfiol i ymgynghoriad Ofcom ar yr Ail Gam ym mis Rhagfyr 2004.

8.9 Ym Mawrth 2005, cynhaliwyd sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Drydydd Cam adolygiad Ofcom sy'n ymwneud â'r gwledydd unigol a'r rhanbarthau.

8.10 Yn ogystal â hyn, cafwyd cyflwyniadau ar ddyfodol drama drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru, a chyflwyniadau gan yr Urdd a Sgrin.

**9. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))**

Yn Ionawr 2005, ystyriwyd y Mesur Drafft ar y Loteri.

**10. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))**

10.1 Mae’r Pwyllgor yn goruchwylio gwaith y naw corff cyhoeddus isod a noddir gan y Cynulliad:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Bwrdd Henebion Cymru
- Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Llyfrau Cymru

10.2 Parhawyd â'r arfer o graffu ar gynlluniau corfforaethol y cyrff cyhoeddus a thrafod materion perthnasol eraill yn ystod yr ymweliadau ym mis Medi. Yn 2004, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn y gogledd a’r canolbarth (gweler paragraff 4.1). Un o'r prif bynciau trafod oedd cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddyfodol y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymweliadau ym mis Hydref 2004 a mis Ionawr 2005, a chafwyd adroddiad gan y Gweinidog ar ddyfodol y cyrff cyhoeddus.

10.3 Yn ogystal â hyn, cafwyd diweddariadau rheolaidd gan y Gweinidog ar hynt cynlluniau 'Dringo'n Uwch' a 'Cymru Greadigol' ac ar ddatblygiadau pwysig eraill.

10.4 Trafodwyd materion Ewropeaidd a chafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ar waith Pwyllgor y Rhanbarthau.

**11. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)**

11.1 Y Cadeirydd, Rosemary Butler, ac Owen John Thomas yw aelodau enwebedig y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

**12. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)**

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2005-2006 ym Mai a Tachwedd 2004. Mae llythyrau'r Cadeirydd ar flaenoriaethau gwariant y Pwyllgor, a ysgrifennwyd ar 7 Mehefin a 23 Tachwedd, i'w gweld yn atodiadau 2 a 3.

**13. Materion Trawsbynciol**

13.1 Ceisiwyd sicrhau bod gymaint o grwpiau ac unigolion a phosibl yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori ar Ddawns yng Nghymru.

**14. Y Cynlluniau Statudol**

14.1 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried dyletswyddau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, y cynllun datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal wrth gyflawni ei waith. Mae hefyd wedi ystyried gofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

**15. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol**

15.1 Prif flaenoriaethau'r Pwyllgor yn 2005-2006 fydd:

- cwblhau'r adolygiad o Ddawns yng Nghymru;
- trafod ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor ar y Celfyddydau, Chwaraeon ac Adfywio Cymunedol;
- penderfynu ar adolygiadau polisi ar gyfer gaeaf 2005;
- ystyried materion cyfredol ym maes y cyfryngau a darlledu.

**Rosemary Butler**
**Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
**Mai 2005**

**Atodiad 1**

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

Mae’r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

“9.7. Bydd pob Pwyllgor Pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau’r Cynulliad o fewn y meysydd y mae’r Gweinidog perthnasol yn atebol i’r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; ac
iii. yn cadw llygad ar y gwaith o gyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd,

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**CWLS(2) 07-05 Atodiad 2**

**CULTURE, WELSH LANGUAGE AND SPORT COMMITTEE**

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Alun Pugh A.M
Minister for Culture, Welsh Language and Sport

7 June 2004

**Dear**

DISCUSSION OF BUDGET PRIORITIES

I am writing in accordance with Standing Order 9.8(ii) to convey the Committee's budget priorities. As you are aware, the Committee discussed its budget priorities for the Assembly expenditure in 2005-06 at its meeting on 12 May, taking account of your priorities paper (CWLS(2)-06-04(p.4)) and the Finance Minister's letter of 30 March.

The Committee would like to see a larger percentage of the overall budget being allocated towards Culture spending, not least since it is widely regarded that such spending leads to positive impacts in the key strategic aims of the Welsh Assembly Government such as health, employment and safer communities. The Committee would also like to stress the need for further co-ordinated approaches between Ministerial portfolios to ensure consistent policy and to achieve the best results possible.

The Committee welcomes your recent announcement of new funding towards implementing many of the Committee's Welsh Writing in English report recommendations. It is hoped that this area will receive continuing budgetary commitments beyond the initial funding allocated, as you indicated in the Committee meeting.

As you are aware, the Committee is now nearing the completion of its second policy review: The Contribution of Arts and Sport to Community Regeneration. The Committee will be making a series of recommendations in a report in the autumn and would therefore like to see funding set aside for their implementation. Members welcome your current proposals for renovating old/currently unused buildings and using them for new purposes such as sports and arts venues.

The Welsh Assembly Government's Free Swimming initiatives are also welcomed by the Committee; however further funding is requested to provide access/transport to venues as well as providing lessons and coaching. The Committee would also like you to consider piloting initiatives that provide free provision of other leisure activities as well as giving consideration to the funding of major events.

The Committee would like to see funding for the extension of digital access in Wales. The Committee believes, however, that with the multiplicity of schemes by a variety of organisations, there needs to be greater co-ordination across the sector.

In addition, the Committee believes that there should be more support for music, with particular focus on music development and on young musicians.

Accordingly the Committee's priorities for this current budget round are:

- A larger percentage of the overall Assembly budget being allocated towards Culture spending.
- Continued support for Welsh Writing in English.
- Funding to augment the contribution of arts and sport to community regeneration.
- Free Swimming Initiative - provision of access/transport to venues as well as lessons and coaching.
- The piloting of initiatives that provide free provision of other leisure activities.
- Consideration of support for major events.
- The extension of digital access in Wales.
- Further support for musical initiatives.

Members are pleased that you were able to confirm in the Committee meeting that the Welsh Assembly Government would distribute the £28m allocated for Iaith Pawb over the course of the strategy. During the meeting you also agreed to examine, in conjunction with the Finance Minister, the possibility of making the SpREE (The Spending Review and Evaluation Exercise) Report available to all Members.

I am copying this letter to the Finance Minister.

Yours sincerely

**Rosemary Butler A.M**
Chair, Culture, Welsh Language and Sport Committee

cc Sue Essex, Minister for Finance, Local Government and Publi

**CWLS(2) 07-05 Atodiad 3**

**CULTURE, WELSH LANGUAGE AND SPORT COMMITTEE**

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Alun Pugh A.M
Minister for Culture, Welsh Language and Sport

23 November 2004

**Dear Alun,**

DISCUSSION OF BUDGET PRIORITIES

I am writing in accordance with Standing Order 9.8(ii) to convey the Committee's budget priorities. As you are aware, the Committee discussed its draft budget priorities for the Assembly expenditure in 2005-06 to 2007-08 at its meeting on 17 November, taking account of your priorities paper (CWLS(2)-13-04(p.2))

The Committee was pleased to see a larger percentage of the overall budget being allocated towards Culture spending, not least since it is widely regarded that such spending leads to positive impacts in the key strategic aims of the Welsh Assembly Government such as health, employment and safer communities. The Committee would also like to stress the need for further co-ordinated approaches between Ministerial portfolios to ensure consistent policy implementation and to achieve the best results possible for Sports and the Arts across Wales.

The Committee welcomes your response to our proposals set out in my letter of 6 June in particular the continued support for Welsh Writing in English with £250,000 being provided for each of the next three years. As you are aware, the Committee is now nearing the completion of its second policy review: *The Contribution of Arts and Sport to Community Regeneration*. The Committee welcomes the funding of the £2 million per year you have set aside for Arts Outside Cardiff and notes that you will ensure that it has a major impact on the accessibility of the performing arts and especially in Communities First areas.

Members welcomed your current proposals to increase widespread participation in sport and physical activity particularly to extend the Free Swimming initiative over the next 3 years and note that you are encouraging local authorities to appoint a Free Swimming Co-ordinator who will be

responsible for identifying and facilitating ways of addressing issues such as access/transport if they are deemed a barrier to participation. We look forward to receiving the details of the breakdown of funding for Sport including the details of the *Climbing Higher* Fund and note the work to be carried out by the National Library of Wales and the Arts Council of Wales to examine the potential for a National Digital Gallery for the Visual Arts.

Members are pleased that you were able to confirm in the Committee meeting that the Welsh Assembly Government would distribute the £28m allocated for Iaith Pawb over the course of the strategy.

Overall however, the Committee would wish to see an earlier breakdown of the make up of the Culture Fund that represents the greatest increase in your overall budget. We would hope that in future it will be possible to let the Committee have details of the proposed allocations in time for our consideration of the budget.

I am copying this letter to the Finance Minister for information.

Yours sincerely

**Rosemary Butler A.M**
Chair, Culture, Welsh Language and Sport Committee

cc Sue Essex, Minister for Finance, Local Government and Public Services